**Tasg 1**

# Beth ydych chi'n feddwl?

Darllenwch y fforwm yma.

| | |
|---|---|
| Josh | Cerflun gwych - ond mae taflu offer trydanol ac offer electronig yn ofnadwy! |
| Alice | Rydyn ni'n defnyddio gormod o offer trydanol a gormod o offer electronig. Dylen ni brynu llai o offer trydanol a llai o offer electronig. |
| Will | Dw i'n cytuno. Mae gen i ffôn newydd ond mae'r hen ffôn yn gweithio'n iawn. |
| Lefi | Dylet ti roi'r hen ffôn i ffrind neu i elusen, Will. |
| Lili | Syniad da. Hefyd, mae rhai siopau'n rhoi arian am hen ffôn neu hen mp3. |
| Maia | Dylai pobl lawrlwytho cerddoriaeth o'r we yn lle prynu CDs. |
| Mahir | Dylen nhw wylio ffilmiau ar y cyfrifiadur yn lle prynu DVDs. |
| Lois | Dw i'n cytuno. Mae Mam wedi prynu tegell coch achos mae hi'n hoffi coch. Mae'r hen degell du yn y bin. |
| Jess | Ofnadwy! Dylai hi roi'r hen degell i siop elusen. |
| Chloe | Ond dydy siopau elusen ddim eisiau offer trydanol. |
| Jess | Mae rhai siopau elusen eisiau offer trydanol. |
| Yoko | Rydyn ni wedi cael peiriant golchi newydd achos roedd yr hen beiriant golchi'n gwneud sŵn od. |
| Jess | Dylech chi drwsio'r hen beiriant. |

| Geirfa | | | |
|---|---|---|---|
| taflu (i ffwrdd) | to throw (away) | lawrlwytho | to download |
| pethau | things | yn lle | instead (of) |
| elusen | charity | tegell | kettle |
| gormod o | too much / too many | peiriant golchi | washing machine |
| llai o | less, fewer | trwsio | to mend, repair |
| elusen | charity | | |

1. Mae Alice yn dweud,
"Rydyn ni'n defnyddio gormod o offer trydanol – gormod o offer electronig."

Gwnewch restr o'r offer trydanol a'r offer electronig rydych chi'n defnyddio.
Os dydych chi ddim yn gwybod y geiriau Cymraeg, edrychwch mewn geiriadur.

2. Mewn grŵp, dwedwch pam rydych chi'n defnyddio'r pethau yma. Dilynwch y patrwm yma:

Partner 1: Dw i'n defnyddio (sychwr* gwallt i sychu fy ngwallt bob bore).
Beth amdanat ti?
Partner 2: Dw i'n defnyddio (ffôn i anfon tecst bob dydd).
Beth amdanat ti?
Partner 3: Dw i'n defnyddio (i-pad i chwarae gemau bob nos).
Beth amdanat ti? ...

3. Darllenwch y fforwm eto
Mae'r bobl ifanc yn rhoi cyngor. Beth maen nhw'n dweud?

a.

b.

c.

ch.

d.

dd.

* Edrychwch:

| | |
|---|---|
| sych | dry |
| sychu | to dry |
| sychwr | dryer |

4. Beth ddylai pobl wneud gyda hen offer trydanol neu hen offer electronig?

Chwiliwch am wybodaeth ar y we ac ysgrifennwch eich syniadau yn y bocs isod.

Dylai pobl ...

Ddylai pobl ddim ...*

Dylen nhw ...

Ddylen nhw ddim ...*

Beth i wneud gyda hen offer trydanol a hen offer electronig

5. Gwnewch daflen yn rhoi cyngor i bobl ar beth i wneud gyda hen offer trydanol a hen offer electronig.

Defnyddiwch y wybodaeth yn y fforwm a gwybodaeth o'r bocs uchod. Chwiliwch am fwy o wybodaeth hefyd os ydych chi eisiau.

Lawrlwythwch luniau o'r we hefyd.

* Mae mwy o wybodaeth am **Dylai ..., Dylen** ac ati ar y dudalen nesaf.

CIWB

## Dylwn i ... / Dylet ti ...

| | |
|---|---|
| Dylwn i **b**rynu ... | I should buy ... |
| Dylet ti **dd**efnyddio ... | You (sing.) should use ... |
| Dylai John / e / o / hi **f**ynd i'r ... | John / he / she should go to the ... |
| Dylen ni **w**ylio ... | We should watch ... |
| Dylech chi **w**rando ar ... | You (pl.) should listen to ... |
| Dylen nhw **dd**arllen ... | They should read ... |
| Dylai pobl **r**oi ... | People should give ... |

Beth sy'n digwydd ar ôl **Dylwn i / Dylech chi** ac ati?

## Y negyddol

| | |
|---|---|
| **Dd**ylwn i **ddim** prynu ... | I shouldn't buy ... |
| **Dd**ylet ti **ddim** defnyddio ... | You (sing.) shouldn't use ... |
| **Dd**ylai John / e / o / hi **ddim** mynd i'r ... | John / he / she shouldn't go to the ... |
| **Dd**ylen ni **ddim** gwylio ... | We shouldn't watch ... |
| **Dd**ylech chi **ddim** gwrando ar ... | You (pl.) shouldn't listen to ... |
| **Dd**ylen nhw **ddim** darllen ... | They shouldn't read ... |
| **Dd**ylai pobl **ddim** rhoi ... | People shouldn't give ... |

Sut mae gwneud y negyddol?